

GISDA

DARPARU CEFNOGAETH A CHYFLEOEDD I BOBL IFANC
PROVIDING SUPPORT AND OPPORTUNITIES FOR YOUNG PEOPLE

Swydd Ddisgrifiad Mentor Cyfoed Rhieni

GYFRIFOL I:	Rheolwr Prosiect Cefnogi Pobl
LLEOLIAD:	Caernarfon/Blaenau Ffestiniog
GRADD:	10-14
CYFLOG:	£14,185 - £16,117
ORIAU:	22½ awr yr wythnos.

PWRPAS Y SWYDD

Pwrpas y swydd ydy annog a chefnogi rhieni ifanc o dan 18 a'u plant i ymwneud a chymryd mantais o'r gwasanaethau sydd ar gael iddynt. Bydd y mentor cyfoed yn gweithio gyda'r rhieni ifanc a'u annog i ddatblygu sgiliau ymarferol ac emosiynol.

Mae "mentora" yn gyfle i greu cyd-berthynas buddiol a phwrpasol ble mae'r unigolyn (y mentor) yn rhoi amser a chefnogaeth i bobl eraill i'w galluogi i wneud newidiadau llesol yn eu bywydau.

PRIF DDYLETSWYDDAU

- Annog a chefnogi'r rhieni ifanc i wneud y defnydd gorau o'r prosiect.
- Annog a chefnogi'r rhieni ifanc i wneud y defnydd gorau o gynlluniau cefnogaeth sydd ar gael i rieni ifanc.
- Cyd-drefnu, efo'r Cefnogwyr Teulu, gweithgareddau gyda'r rhieni ifanc yn unol â'r cynllun cefnogaeth e.e. sesiynnau coginio, adeiladu hyder.
- Annog a chefnogi rhieni ifanc i wneud y defnydd gorau o'r gwasanaethau a'r ffynonellau sydd ar gael iddynt o fewn eu cymunedau.
- Annog a chefnogi'r rhieni ifanc i adeliadu eu hyder a'u gwydnwch.
- Annog a chefnogi'r rhieni ifanc i gynnal perthnasau teuluol positif.
- Annog a chefnogi'r rhieni ifanc i ddysgu a datblygu sgiliau.
- Annog a chefnogi'r rhieni ifanc i wneud defnydd o wasanaethau iechyd a lles.
- Annog a chefnogi rhieni ifanc i achredu eu sgiliau. e.e. cyllido, coginio.

- Sicrhau bod cofnodion ffeithiol o bob cyswllt efo rhieni ifanc a'u plant yn cael eu cadw.
- Cyd-weithio efo'r Cefnogwyr Teulu er lles gorau rhieni ifanc a'u plant.

DYLETSWYDDAU ERAILL

- Cynnal, cadw a datblygu systemau recordio clir a chywir.
- Bod yn gyfrifol, ar y cyd â gweithwyr eraill y prosiect, am fonitro ac adolygu holl weithgaredd y prosiect.
- Sicrhau fod yr holl wybodaeth ystadegol a monitro yn cael ei fewnbynnu i'r cyfrifiadur yn rheolaidd.
- Annog rhieni ifanc i gymryd rhan weithredol yn natblygiad y gwasanaeth a'r gyfundrefn.
- Cydweithio gyda holl staff y Cwmni i hybu cyfuno gwasanaeth y cynllun a'r gwasanaethau eraill a gynnigir gan GISDA.
- Cynrychioli GISDA mewn cyfarfodydd allanol ar gais y Rheolwr Prosiect a/neu'r Pennaeth Gwasanaethau.
- Darparu adroddiadau ar gyfer cynulleidfaoedd mewnol ac allanol yn ol galw'r Rheolwr Prosiect a/neu'r Pennaeth Gwasanaethau.
- Datblygu partneriaethau gydag asiantaethau eraill er mwyn datblygu'r gwasanaeth i gefnogi pobl ifanc a'u teuluoedd.
- Sicrhau fod y rhieni ifanc yn derbyn gwasanaeth gorau bosib.

DYLETSWYDDAU CYFFREDINOL

- Cyfrannu tuag at hyfforddiant a datblygiad personol eich hun.
- Cyfrannu at sesiynau arolygaeth ac Adolygiadau Blynyddol.
- Hyrwyddo agwedd gyfeillgar, ddi-ragfarn, ym mhob agwedd o'r gwaith tuag at ddefnyddwyr gwasanaeth, cyd-weithwyr, aelodau o'r Bwrdd Rheoli ac aelodau o'r cyhoedd / asiantaethau eraill.
- Hyrwyddo gwerthoedd a diwylliant mewnol GISDA.
- Hyrwyddo nod ac amcanion GISDA.
- Cyfrannu tuag at ymdrechion codi arian GISDA.
- Cydweithio efo a chefnogi rhai yn gwirfoddoli o fewn GISDA.
- Ymlynu at holl bolisiâu a gweithdrefnau cyfredol GISDA.
- Dilyn protocol Amddiffyn Plant GISDA.
- I gadw holl wybodaeth ynglyn a staff a defnyddwyr gwasanaeth GISDA yn gyfrinachol, yn unol a'r ddedf gwarchod data a pholisi cyfrinachedd y cwmni.
- Gweithio yn unol a Cod Ymarfer Cyngor Gofal Cymru.
- Mynychu a chyfranu i gyfarfodydd tim.
- Ymgymryd ag unrhyw dasgau rhesymol yn ôl yr angen.

Tynnir eich sylw at y ffaith ei bod hi'n anodd iawn, mewn rhai achosion, i ddiffinio'n fanwl beth yw'r dyletswyddau a'r cyfrifoldebau penodol ac mae'n bosib y byddant yn amrywio o bryd i'w gilydd ond heb newid cymeriad cyffredinol y dyletswyddau na lefel y cyfrifoldebau.

Disgwylir i bob aelod o staff dderbyn elfennau o hyblygrwydd yn eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau; pan fo raid iddynt newid y tu fewn i'r gyfundrefn er mwyn cwrdd â gofynion ac anghenion y gwasanaeth.

MANYLION PERSON MENTOR CYFOED

HANFODOL

Cymhwyster a Phrofiad:

- ✓ Profiad o fod yn riant ifanc.

Sgiliau/Gwybodaeth

- ✓ Sgiliau rhyngpersonol da.
- ✓ Gweithio'n annibynnol ac fel aelod o dîm.
- ✓ Blaenoriaethu a threfnu gwaith.
- ✓ Sgiliau gwranddo effeithiol.
- ✓ Rheoli amser yn effeithiol.
- ✓ Sgiliau technoleg gwybodaeth.
- ✓ Trin gwybodaeth sensitif a chyfrinachol.
- ✓ Dealltwriaeth o ffiniau yn y maes cefnogaeth.
- ✓ Cyfathrebu mewn amrywiaeth eang o sefyllfaoedd yn y Gymraeg a Saesneg.
- ✓ Ymwybyddiaeth o faterion amddiffyn plant.
- ✓ Y gallu i adnabod risg.
- ✓ Ymwybyddiaeth o anghenion pobl ifanc bregus.

DYMUNOL

Cymhwyster a Phrofiad:

- ✓ Cymhwyster ym maes plant a phobl ifanc.
- ✓ Profiad ym maes plant a phobl ifanc.

Sgiliau/Gwybodaeth:

- ✓ Trwydded yrru lawn a chyfredol.
- ✓ Gwybodaeth am y system budd-daliadau.

- ✓ Profiad o rwydweithio/gweithio mewn partneriaeth.
- ✓ Cadw cofnodion ac ysgrifennu adroddiadau.
- ✓ Y gallu i nodi risg a gweithredu camau perthnasol.